**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
**—**
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
**—**
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

26 Mehefin 2023

**Parthed: Diolch – Thank you**

Ailbhe Ní Chasaide
Grŵp Ymchwil ABIAR
Coleg y Drindod
Dulyn

Annwyl Ailbhe,

Diolch i chi am ddod i'r Pwyllgor gyda'ch cydweithiwr, Neasa Ní Chiaráin, ddydd Mercher 7 Mehefin 2023, a'r papurau ychwanegol a ddarparwyd gennych drwy e-bost ar 9 Mehefin 2023.

Fe wnaethom ni fwynhau ein cyfarfod yn fawr iawn a chlywed am eich gwaith yn datblygu technolegau lleferydd ac iaith ar gyfer yr iaith Wyddeleg. Bydd y wybodaeth a'r profiadau yr ydych wedi'u rhannu yn llywio gwaith ein hymchwiliad ar gysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon, a pholisi iaith Gymraeg. Mae gennym ddiddordeb mawr mewn edrych ymhellach ar y cymorth a gynigir gan llywodraethau i ieithoedd Celtaidd eraill, a gallwn ymgorffori hyn yn ein rhaglen waith yn y dyfodol. Os bydd y cyfle'n codi, byddwn yn sicr yn manteisio ar eich cynnig caredig i ymgysylltu â ni ymhellach.

Dymunwn bob llwyddiant i chi gyda'ch ymdrechion yn y dyfodol.

Yn gywir,



**Delyth Jewell AS**
Cadeirydd y Pwyllgor

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.